Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL: 24/2021

DYDDIAD CYHOEDDI: 19/03/2021

# Proffil Twristiaeth – Gogledd Cymru 2017 - 2019

© ISBN Digidol Hawlfraint y Goron 978-1-80195-039-8

Teitl: Proffil Twristiaeth - Gogledd Cymru 2017 - 2019
Is-deitl: Crynodeb o dueddiadau twristiaeth rhanbarth Gogledd Cymru

ISBN 978-1-80195-039-8

Ymchwilydd: Jennifer Velu

Barn yr ymchwilydd ac nid Llywodraeth Cymru o reidrwydd a fynegir yn yr adroddiad hwn

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch ag:

Ymchwil Twristiaeth

Croeso Cymru

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

0300 025 5771

e-bost: ymchwiltwristiaeth@llyw.cymru

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys data yn gysylltiedig â thwristiaeth yn rhanbarth Gogledd Cymru ar gyfer y cyfnod 2017-2019, gan gymharu hynny â lefel gyffredinol Prydain, lefel Cymru gyfan a rhanbarthau eraill Cymru. Am wybodaeth gymharol, dylid darllen taflenni ffeithiau'r tri rhanbarth arall yng Nghymru, a'r daflen ffeithiau ar awdurdodau lleol,

Yn dilyn cyngor y Swyddfa Ystadegau gwladol, er mwyn sicrhau bod yr ystadegau mor gadarn ag sy'n bosibl, cyflwynir y ffigurau ar ffurf cyfartaleddau blynyddol dros 3 blynedd. 2019 yw'r flwyddyn ddiweddaraf y mae gennym ddata manwl ar ei chyfer ar y raddfa ddaearyddol hon, felly mae'r proffiliau yn cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael ar hyn o bryd.

Mae'r proffiliau yn cynnwys tablau ar ymwelwyr dros nos domestig, dros nos rhyngwladol ac ymwelwyr undydd domestig â Chymru, a chyfraddau deiliadaeth llety.

## Mynegai


1. Trosolwg a Phwyntiau Allweddol .....5

2. Ymwelwyr Dros Nos  Domestig o Brydain .....10

Nifer y Teithiau a Gwariant Cysylltiedig ..... 11

Gwariant Cyfartalog fesul Taith ..... 12

Nifer Cyfartalog y Nosweithiau fesul Taith ..... 13

Diben y Daith ..... 13

Hyd y Teithiau Gwyliau ..... 15

Cyfnod Bywyd y Teithiau Gwyliau ..... 15

Tymhorau'r Teithiau ..... 16

Math o le yr ymwelwyd ag ef ..... 17

Math o lety a ddefnyddiwyd ar daith ..... 18

Rhanbarth Tarddiad ..... 21

3. Ymwelwyr Rhyngwladol â Chymru .....21

Nifer yr Ymweliadau a Gwariant Cysylltiedig ..... 23

Gwariant Cyfartalog fesul Ymweliad ..... 24

Nifer cyfartalog y Nosweithiau fesul Ymweliad ..... 25

Diben y Daith ..... 25

Gwlad Tarddiad ..... 28

4. Ymweliadau Undydd Twristiaeth .....28

Ymweliadau Undydd Twristiaeth a Gwariant Cysylltiedig ..... 29

Gwariant Cyfartalog fesul Ymweliad ..... 30

Gweithgareddau a gyflawnwyd ..... 31

Math o le yr ymwelwyd ag ef ..... 32

Dull Teithio a Ddefnyddiwyd ..... 33

Pellter a deithiwyd ..... 34

5. Cyfraddau Deiliadaeth Llety .....35

Gwestai ..... 35

Gwestai Bach a Gwely a Brecwast ..... 35

Hunanddarpar ..... 36

Carafanau Statig a Chartrefi Gwyliau ..... 36

Carafanau Teithiol a Gwersylla ..... 37

Hosteli ..... 37

6. Adnoddau Pellach .....38

7. Atodiad .....39

# 1. Trosolwg a Phwyntiau Allweddol




*Gweler* ***Tabl 1.0***

**Twristiaeth yn gyffredinol**

Yn 2017-2019 cafwyd cyfartaledd blynyddol o 3.7 miliwn o deithiau dros nos gan ymwelwyr domestig o Brydain, 299,000 o ymweliadau rhyngwladol a 22.7 miliwn o ymweliadau undydd twristiaeth â Gogledd Cymru, a gwariant cyfartalog blynyddol o £1.47 biliwn yn gysylltiedig â hynny.

Derbyniodd Gogledd Cymru 37 y cant o deithiau dros nos domestig, 29 y cant o ymweliadau rhyngwladol ac 24 y cant o ymweliadau undydd twristiaeth â Chymru. Roedd gwariant ar ymweliadau twristiaeth â Gogledd Cymru i gyfrif am 24 y cant o wariant twristiaeth yng Nghymru.

Gostyngodd y gwariant cyfartalog blynyddol ar gyfer twristiaeth yng Ngogledd Cymru 10 y cant o £1.64 biliwn yn 2016-2018 i £1.47 biliwn yn 2017-2019. Mewn cymhariaeth, cafwyd gostyngiad o 2 y cant mewn gwariant yn gysylltiedig â thwristiaeth i £6.21 biliwn.

*Ymwelwyr Dros Nos Domestig o Brydain*

Cafwyd cynnydd o 8 y cant yn nifer cyfartalog y teithiau dros nos domestig gan ymwelwyr o Brydain i 3.7 miliwn rhwng 2016-2018 a 2017-2019, ond cafwyd cynnydd o 5 y cant i 9.9 miliwn yn nifer y teithiau yng Nghymru'n gyffredinol. Cafwyd cynnydd o 9 y cant mewn gwariant yn gysylltiedig â theithiau dros nos domestig yng Ngogledd Cymru dros yr un cyfnod, ac yng Nghymru gyfan gwelwyd cynnydd o 6 y cant mewn gwariant ar ymweliadau dros nos domestig. *Gweler* ***Tabl 1.1***

*Ymweliadau Undydd gan Ymwelwyr Domestig o Brydain*

Gostyngodd nifer yr ymweliadau undydd twristiaeth yng Ngogledd Cymru 9 y cant rhwng 2016-2018 a 2017-2019 i 22.7 miliwn o deithiau, tra gostyngodd nifer y teithiau yng Nghymru gyfan 5 y cant. Gostyngodd gwariant cysylltiedig yng Ngogledd Cymru 24 y cant dros yr un cyfnod, o £920 miliwn i £703 miliwn, y gostyngiad mwyaf ym mhob rhanbarth, ond bu gostyngiad o 5 y cant mewn gwariant yng Nghymru gyfan ar gyfartaledd. *Gweler* ***Tabl 1.3***

*Ymweliadau Rhyngwladol â Chymru*

Gostyngodd nifer yr ymweliadau rhyngwladol â Gogledd Cymru 1 y cant yn 2017-2019 o gymharu â 2016-2018 i 299,000, ond cafwyd 2 y cant o ostyngiad yn nifer y teithiau rhyngwladol i Gymru'n gyffredinol. Dros yr un cyfnod, cafwyd gostyngiad o 1 y cant mewn gwariant cysylltiedig gan ymwelwyr rhyngwladol â Gogledd Cymru hefyd, gan gyrraedd £89 miliwn yn 2017-2019, er i wariant rhyngwladol yng Nghymru gyfan godi 1 y cant. *Gweler* ***Tabl 1.2***


**Cafwyd gostyngiad o 10 y cant mewn gwariant cyffredinol gan ymwelwyr â Gogledd Cymru**

**Tabl 1.0 Gwariant (£ miliwn) yn ôl Cyfartaleddau Tair Blynedd ar gyfer Teithiau Dros Nos Domestig gan Ymwelwyr o Brydain, Ymweliadau Rhyngwladol ac ymweliadau undydd Twristiaeth**
*Ffynonellau: Arolwg Twristiaeth Prydain, Arolwg Teithwyr Rhyngwladol, Arolwg Ymweliadau Undydd Prydain*

| | Gwariant (£ miliwn) | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2016-2018 | % y gwariant | 2017-2019 | % y gwariant | % o newid |
| Prydain | £113,583 | | £116,138 | | 2% |
| Cymru | £6,315 | 100% | £6,206 | 100% | -2% |
| **Gogledd Cymru** | **£1,636** | **26%** | **£1,474** | **24%** | **-10%** |
| Canolbarth Cymru | £755 | 12% | £994 | 16% | 32% |
| De-ddwyrain Cymru | £2,304 | 36% | £2,167 | 35% | -6% |
| De-orllewin Cymru | £1,282 | 20% | £1,237 | 20% | -4% |

Cafwyd gostyngiad o 10 y cant mewn gwariant ar bob math o dwristiaeth yng Ngogledd Cymru yn 2017-2019, o gymharu â 2016-2018, i £1.47 biliwn, tra cafwyd gostyngiad o 2 y cant mewn gwariant twristiaeth yng Nghymru'n gyffredinol i £6.21 biliwn.

**Dangosyn 1.0 Gwariant yng Nghymru ac yn Ne-orllewin Cymru 2017-2019**
*Ffynonellau: Arolwg Twristiaeth Prydain, Arolwg Teithwyr Rhyngwladol, Arolwg Ymweliadau Undydd Prydain*




Yn 2017-2019, roedd cyfran y gwariant twristiaeth yn sgil ymweliadau undydd twristiaeth yn is na chyfartaledd Cymru gyfan yn 48 y cant o gymharu â 63 y cant.  Roedd ymweliadau dros nos domestig i gyfrif am 46 y cant o wariant twristiaeth yng Ngogledd Cymru, cyfran llawer mwy nag yng Nghymru gyfan, lle gwelwyd 29 y cant o wariant yn sgil y math hwn o ymweliad.

**Cododd teithiau dros nos domestig a gwariant i Ogledd Cymru yn 2017-2019, yn fwy na chyfartaledd Cymru.**

**Tabl 1.1 Nifer y Teithiau Dros Nos Domestig gan Ymwelwyr o Brydain (miliwn) a Gwariant Cysylltiedig (£ miliwn) - Cyfartaleddau Blynyddol Tair Blynedd**
*Ffynhonnell: Arolwg Twristiaeth Prydain*

| | Teithiau (miliynau) | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **2016-2018** | **% y teithiau** | **2017-2019** | **% y teithiau** | **% o newid** |
| Prydain | 119.562 | | 120.671 | | 1% |
| Cymru | 9.451 | 100% | 9.914 | 100% | 5% |
| **Gogledd Cymru** | **3.378** | **36%** | **3.653** | **37%** | **8%** |
| Canolbarth Cymru | 1.887 | 20% | 1.916 | 19% | 2% |
| De-ddwyrain Cymru | 2.252 | 24% | 2.307 | 23% | 2% |
| De-orllewin Cymru | 1.862 | 20% | 1.939 | 20% | 4% |
| | **Gwariant (£ miliwn)** | | | | |
| | **2016-2018** | **% y gwariant** | **2017-2019** | **% y gwariant** | **% o newid** |
| Prydain | £23,574 | | £24,098 | | 2% |
| Cymru | £1,723 | 100% | £1,828 | 100% | 6% |
| **Gogledd Cymru** | **£626** | **36%** | **£682** | **37%** | **9%** |
| Canolbarth Cymru | £314 | 18% | £335 | 18% | 7% |
| De-ddwyrain Cymru | £373 | 22% | £393 | 22% | 5% |
| De-orllewin Cymru | £374 | 22% | £383 | 21% | 2% |

Rhwng 2016-2018 a 2017-2019, cynyddodd nifer y teithiau dros nos domestig yng Ngogledd Cymru - a'r gwariant ar hynny - i raddau tebyg. Yng Ngogledd Cymru gwelwyd 8 y cant o gynnydd yn nifer cyfartalog blynyddol y teithiau dros nos domestig gan ymwelwyr o Brydain i 3.7 miliwn rhwng 2016-2018 a 2017-2019, ond yng Nghymru'n gyffredinol gwelwyd cynnydd o 5 y cant yng nghyfanswm y teithiau yng Nghymru gyfan. Cafwyd cynnydd o 9 y cant mewn gwariant yn gysylltiedig â theithiau dros nos domestig yng Ngogledd Cymru dros yr un cyfnod, ac yng Nghymru gyfan gwelwyd cynnydd o 6 y cant mewn gwariant ar ymweliadau dros nos domestig.

**Gwelwyd gostyngiad bach yn nifer yr ymweliadau rhyngwladol a'r gwariant cysylltiedig yng Ngogledd Cymru rhwng 2016-2018 a 2017-2019.**

**Tabl 1.2 Nifer yr Ymweliadau Rhyngwladol (miliwn) a Gwariant Cysylltiedig (£ miliwn) - Cyfartaleddau Tair Blynedd**
*Ffynhonnell: Arolwg Teithwyr Rhyngwladol*

| | Teithiau (miliynau) | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **2016-2018** | **% y teithiau** | **2017-2019** | **% y teithiau** | **% o newid** |
| Prydain | 40.164 | | 40.740 | | 1% |
| Cymru | 1.060 | 100% | 1.041 | 100% | -2% |
| **Gogledd Cymru** | **0.303** | **29%** | **0.299** | **29%** | **-1%** |
| Canolbarth Cymru | 0.107 | 10% | 0.099 | 10% | -7% |
| De-ddwyrain Cymru | 0.525 | 50% | 0.525 | 50% | 0% |
| De-orllewin Cymru | 0.198 | 19% | 0.187 | 18% | -5% |
| | **Gwariant (£ miliwn)** | | | | |
| | **2016-2018** | **% y gwariant** | **2017-2019** | **% y gwariant** | **% o newid** |
| Prydain | £26,631 | | £27,637 | | 4% |
| Cymru | £446 | 100% | £448 | 100% | 1% |
| **Gogledd Cymru** | **£90** | **20%** | **£89** | **20%** | **-1%** |
| Canolbarth Cymru | £54 | 12% | £31 | 7% | -43% |
| De-ddwyrain Cymru | £196 | 44% | £224 | 50% | 14% |
| De-orllewin Cymru | £95 | 21% | £92 | 20% | -4% |

Gostyngodd nifer blynyddol cyfartalog yr ymweliadau rhyngwladol â Gogledd Cymru rhyw fymryn, sef 1 y cant, rhwng 2016-2018 a 2017-2019, ond yng Nghymru ar gyfartaledd bu gostyngiad o 2 y cant yn nifer y teithiau, a chynnydd bach iawn o 1 y cant mewn gwariant. Yn 2017-2019, derbyniwyd cyfartaledd blynyddol o 299,000 o ymweliadau y flwyddyn, y lefel uchaf ond un o ymweliadau rhyngwladol â rhanbarthau Cymru.

**Gostyngodd nifer yr ymweliadau undydd twristiaeth a'r gwariant cysylltiedig yng Ngogledd Cymru rhwng 2016-2018 a 2017-2019, a hynny i raddau mwy nag yn unrhyw ranbarth arall yng Nghymru.**

**Tabl 1.3 Nifer yr Ymweliadau Undydd Twristiaeth (miliwn) a Gwariant Cysylltiedig (£ miliwn) - Cyfartaleddau Blynyddol Tair Blynedd**
*Ffynhonnell: Arolwg ymweliadau undydd Prydain*


| | Teithiau (miliynau) | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **2016-2018** | **% y teithiau** | **2017-2019** | **% y teithiau** | **% o newid** |
| Prydain | 1,776.7 | | 1,716.4 | | -3% |
| Cymru | 99.3 | 100% | 94.4 | 100% | -5% |
| **Gogledd Cymru** | **25.0** | **25%** | **22.7** | **24%** | **-9%** |
| Canolbarth Cymru | 11.0 | 11% | 12.3 | 13% | 12% |
| De-ddwyrain Cymru | 39.0 | 39% | 37.7 | 40% | -3% |
| De-orllewin Cymru | 24.3 | 24% | 22.7 | 24% | -7% |
| | **Gwariant (£ miliwn)** | | | | |
| | **2016-2018** | **% y gwariant** | **2017-2019** | **% y gwariant** | **% o newid** |
| Prydain | £63,378 | | £64,402 | | 2% |
| Cymru | £4,146 | 100% | £3,929 | 100% | -5% |
| **Gogledd Cymru** | **£920** | **22%** | **£703** | **18%** | **-24%** |
| Canolbarth Cymru | £388 | 9% | £628 | 16% | 62% |
| De-ddwyrain Cymru | £1,735 | 42% | £1,550 | 39% | -11% |
| De-orllewin Cymru | £813 | 20% | £762 | 19% | -6% |

Cafwyd gostyngiad o 9 y cant yn nifer yr ymweliadau undydd twristiaeth yng Ngogledd Cymru rhwng 2016-2018 a 2017-2019 i 22.7 miliwn o deithiau, a gostyngiad o 5 y cant yn nifer y teithiau yng Nghymru gyfan. Cafwyd gostyngiad o 24 y cant mewn gwariant cysylltiedig yng Ngogledd Cymru dros yr un cyfnod o £920 miliwn i £703 miliwn y flwyddyn, sef y gostyngiad mwyaf o blith yr holl ranbarthau.


## 2. Ymwelwyr Dros Nos Domestig o Brydain

Casglwyd yr holl ddata a ddefnyddiwyd ar gyfer yr adran hon o Arolwg Twristiaeth Prydain. Cyfartaleddau blynyddol a gymerwyd dros dair blynedd, 2017-2019, yw'r ffigurau a ddangosir, oni nodir fel arall.

**Dangosyn 2.0 Cyfran (%) y Teithiau Dros Nos Domestig o Brydain i Gymru fesul Rhanbarth yng Nghymru – Cyfartaledd Blynyddol dros Dair Blynedd 2017-2019**
*Ffynhonnell: Arolwg Twristiaeth Prydain*





**Dangosyn 2.1 Cyfran (%) y Gwariant yn Gysylltiedig â Theithiau Dros Nos Domestig o Brydain i Gymru fesul Rhanbarth yng Nghymru – Cyfartaledd Blynyddol dros Dair Blynedd 2017-2019**
*Ffynhonnell: Arolwg Twristiaeth Prydain*



Yn ystod 2017-2019, derbyniodd Gogledd Cymru gyfartaledd blynyddol o 3.65 miliwn o deithiau dros nos domestig gan ymwelwyr o Brydain bob blwyddyn. Yn ystod y cyfnod hwn, cynhyrchodd yr ymwelwyr hyn wariant cysylltiedig cyfartalog blynyddol o £682 miliwn. Derbyniodd Gogledd Cymru 37 y cant o'r holl deithiau dros nos domestig gan ymwelwyr o Brydain i Gymru, yn ogystal â 37 y cant o wariant cysylltiedig, gan olygu mai dyma'r rhanbarth mwyaf poblogaidd yng Nghymru ar gyfer y math hwn o dwristiaeth. Mae'r cyfrannau rhanbarthol o ymwelwyr dros nos domestig yn gyson ar y cyfan dros y tymor hwy.

## Nifer y Teithiau a Gwariant Cysylltiedig

**Dangosyn 2.2 Teithiau Dros Nos Domestig o Brydain (miliynau) a Gwariant Cysylltiedig (£ miliynau) i Ogledd Cymru - Cyfartaleddau Blynyddol dros Dair Blynedd**
*Ffynhonnell: Arolwg Twristiaeth Prydain*





Yn dilyn yr uchafbwynt o £639 miliwn mewn gwariant blynyddol a welwyd yn y cyfnodau 2013-2015 a 2014-2016, cafwyd gostyngiad yn nifer cyfartalog blynyddol y teithiau dros nos domestig gan ymwelwyr o Brydain, a'r gwariant cysylltiedig, yng Ngogledd Cymru, i £613 miliwn yn 2015-2017. Fodd bynnag, ers 2015-2017 mae gwariant wedi codi eto, ac yn 2017-2019 cyrhaeddodd uchafbwynt newydd o £682 miliwn.

Yn dilyn uchafbwynt 2013-2015 o 3.71 miliwn, gostyngodd nifer cyfartalog y teithiau dros nos domestig yng Ngogledd Cymru hyd 2016-2018, ond cafwyd cynnydd da yn 2017-2019 i gyrraedd 3.65 miliwn o deithiau.

## Gwariant Cyfartalog fesul Taith


**Dangosyn 2.3 Gwariant Cyfartalog fesul Taith Dros Nos Ddomestig o Brydain i Gymru a Gogledd Cymru (£) - Cyfartaleddau Blynyddol dros Dair Blynedd**
*Ffynhonnell: Arolwg Twristiaeth Prydain*




Y gwariant cyfartalog fesul taith dros nos ddomestig gan ymwelwyr o Brydain i Ogledd Cymru yn 2017-2019 oedd £187, y lefel uchaf a gafwyd yn ystod y gyfres o gyfnodau.  Er cymhariaeth, cyfartaledd Cymru gyfan oedd £184 yn ystod yr un cyfnod, er y gwelwyd lefel debyg o dwf yn y naill a'r llall o gymharu â 2016-2018.

## Nifer Cyfartalog y Nosweithiau fesul Taith

**Dangosyn 2.4 Nifer Cyfartalog o Nosweithiau fesul Taith Dros Nos Ddomestig o Brydain i Gymru a Gogledd Cymru – Cyfartaleddau Blynyddol dros Dair Blynedd**
*Ffynhonnell: Arolwg Twristiaeth Prydain*




Yn gyson, bu nifer cyfartalog y nosweithiau fesul taith dros nos ddomestig gan ymwelwyr o Brydain i Ogledd Cymru fymryn yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan, er bod y naill a'r llall wedi bod yn gostwng dros y blynyddoedd diwethaf. Yn 2017-2019, hyd cyfartalog taith dros nos ddomestig yng Ngogledd Cymru oedd 3.52 o nosweithiau, o gymharu â 3.42 o nosweithiau yng Nghymru ar gyfartaledd.

## Diben y Daith


**Tabl 2.1 Nifer y Teithiau Domestig Dros Nifer y Teithiau Dros Nos Domestig gan Ymwelwyr o Brydain (miliynau) yn ôl Diben y Daith yng Nghymru gyfan ac yng Ngogledd Cymru - Cyfartaledd Blynyddol 2017-2019**
*Ffynhonnell: Arolwg Twristiaeth Prydain*

| | Cymru Gyfan | Gogledd Cymru |
|---|---|---|
| **Cyfanswm y Teithiau** | **9.914** | **3.653** |
| Gwyliau | 6.278 | 2.659 |
| Ymweld â Ffrindiau a Pherthnasau | 2.634 | 0.799 |
| Busnes | 0.723 | 0.133 |

Yng Ngogledd Cymru, roedd bron i dri chwarter yr holl deithiau dros nos domestig gan ymwelwyr o Brydain (73 y cant) yn ystod 2017-2019 yn deithiau gwyliau, sef y gyfran uchaf o bob un o'r pedwar rhanbarth. Efallai nad yw hyn yn syndod gan fod Gogledd Cymru wedi derbyn cyfran uwch na'r cyfartaledd o'i ymwelwyr dros nos yn ystod Gorffennaf - Medi (gweler Dangosyn 2.7).

Derbyniodd Gogledd Cymru y gyfran leiaf o ymwelwyr busnes (4 y cant) o blith holl ranbarthau Cymru yn 2017-2019, a 7 y cant oedd cyfartaledd Cymru gyfan dros yr un cyfnod.  Roedd Gogledd Cymru hefyd yn un o ddau ranbarth a dderbyniodd y gyfran isaf o ymweliadau â ffrindiau neu berthnasau (22 y cant), sy'n is na chyfartaledd Cymru o 27 y cant.


**Dangosyn 2.5 Cyfran (%) y Teithiau Dros Nos Domestig o Brydain i Gymru Gyfan ac i Ranbarthau Cymru yn ôl Diben y Daith – Cyfartaledd Blynyddol 2017-2019**
*Ffynhonnell: Arolwg Twristiaeth Prydain*




**Sylwch ei bod hi'n bosibl nad yw'r ffigurau'n creu cyfanswm o 100 y cant gan fod rhai cyfranogwyr heb ateb y cwestiwn hwn neu wedi dewis 'Ddim yn Gwybod/Arall'.*

## Hyd y Teithiau Gwyliau

**Dangosyn 2.6 Cyfran (%) y Teithiau Gwyliau Dros Nos Domestig o Brydain yn ôl Hyd y Daith i Gymru Gyfan a Rhanbarthau Cymru – Cyfartaledd Blynyddol 2017-2019**
*Ffynhonnell: Arolwg Twristiaeth Prydain*




**Sylwch ei bod hi'n bosibl nad yw'r ffigurau'n creu cyfanswm o 100 y cant gan fod rhai cyfranogwyr heb ateb y cwestiwn hwn neu wedi dewis 'Ddim yn Gwybod/Arall'.*

Ar gyfer ymweliadau gwyliau â Gogledd Cymru yn 2017-2019, roedd bron i chwech o bob deg (58 y cant) yn deithiau 1-3 noson o hyd, ac ar ôl hynny'n deithiau 4-7 noson a oedd i gyfrif am 38 y cant o wyliau. Roedd dosbarthiad teithiau gwyliau o ran eu hyd yn debyg i Gymru'n gyffredinol, gyda 60 y cant yn 1-3 noson o hyd, 35 y cant yn 4-7 noson o hyd a 5 y cant yn 8 noson o hyd neu fwy. Mae dosbarthiad y teithiau o ran eu hyd wedi bod yn gymharol gyson dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.


## Cyfnod Bywyd y Teithiau Gwyliau

**Tabl 2.2 Nifer y Teithiau Gwyliau dros nos domestig gan Ymwelwyr o Brydain (miliynau) yn ôl Cyfnod Bywyd yng Nghymru Gyfan a Gogledd Cymru - Cyfartaledd Blynyddol 2017-2019**
*Ffynhonnell: Arolwg Twristiaeth Prydain*

| | Cymru Gyfan | Gogledd Cymru |
|---|---|---|
| **Cyfanswm y Teithiau Gwyliau** | **6.278** | **2.659** |
| Cyn-Nythwyr (16-34 yn ddi-briod ac wedi priodi a heb blant) | 0.724 | 0.280 |
| Teuluoedd (16-34 gyda phlant a 35-54 gyda phlant) | 2.284 | 0.938 |
| Pobl Hŷn Annibynnol (35-54 dim plant) | 1.089 | 0.448 |
| Pobl y mae eu plant wedi gadael cartref (55+) | 2.169 | 0.983 |


Y cyfnod bywyd a oedd i gyfrif am y gyfran fwyaf o deithiau gwyliau dros nos domestig gan ymwelwyr o Brydain i Ogledd Cymru yn ystod 2017-2019 oedd pobl y mae eu plant wedi gadael cartref (37 y cant o deithiau gwyliau), gyda'r cyfnod bywyd Teulu yn ail agos, a oedd i gyfrif am 35 y cant o deithiau gwyliau. Mae dosbarthiad gwahanol gyfnodau bywyd ymwelwyr gwyliau yng Ngogledd Cymru yn debyg iawn i'r dosbarthiad a welir yng Nghymru gyfan. Bu cyfrannau gwahanol gyfnodau bywyd yr ymwelwyr sy'n dod i Ogledd Cymru yn gymharol sefydlog dros y blynyddoedd diwethaf.

**Dangosyn 2.7 Cyfran (%) y Teithiau Gwyliau Dros Nos Domestig o Brydain i Gymru Gyfan a Rhanbarthau Cymru yn ôl Cyfnod Bywyd – Cyfartaledd Blynyddol 2017-2019**
*Ffynhonnell: Arolwg Twristiaeth Prydain*




## Tymhorau'r Teithiau

**Dangosyn 2.8 Cyfran (%) y Teithiau Dros Nos Domestig o Brydain i Gymru Gyfan a Rhanbarthau Cymru yn ôl Tymor- Cyfartaledd Blynyddol 2017-2019**
***Ffynhonnell**: Arolwg Twristiaeth Prydain*



Mae dosbarthiad tymhorol teithiau dros nos domestig i Ogledd Cymru a Chymru gyfan yn ystod 2017-2019 yn adlewyrchu tymhorau prysur a thawel nodweddiadol. Roedd teithiau dros nos domestig gan ymwelwyr o Brydain i Ogledd Cymru yn tueddu i ddigwydd ym misoedd yr haf ym mis Gorffennaf-Medi (37 y cant) ac Ebrill-Mehefin (31 y cant), er i gyfran fwy o deithiau ddigwydd ym mis Hydref-Mawrth (32 y cant) nag yn 2016-2018 (29 y cant), gan awgrymu bod y ddibyniaeth ar gyfnod brig traddodiadol y gwanwyn-haf yn lleihau.  Cynhaliwyd dros ddeuparth (68 y cant) o deithiau dros nos domestig i Ogledd Cymru yn ystod 2017-2019 rhwng mis Ebrill a mis Medi, sydd fymryn yn uwch na chyfartaledd Cymru o 64 y cant.


## Math o le yr ymwelwyd ag ef

**Tabl 2.4 Nifer y Teithiau dros nos domestig gan Ymwelwyr o Brydain (miliynau) yn ôl Math o Le yr Ymwelwyd ag Ef yng Nghymru gyfan ac yng Ngogledd Cymru - Cyfartaledd Blynyddol 2017-2019**
*Ffynhonnell: Arolwg Twristiaeth Prydain*

| | Cymru Gyfan | Gogledd Cymru |
|---|---|---|
| **Cyfanswm y Teithiau** | **9.914** | **3.653** |
| Glan y Môr | 4.259 | 2.009 |
| Dinas fawr / tref fawr | 1.781 | 0.193 |
| Tref fach | 1.869 | 0.662 |
| Cefn Gwlad / pentref | 2.293 | 0.893 |

**Dangosyn 2.9 Cyfran (%) y Teithiau Dros Nos Domestig o Brydain yn ôl Math o Le yr Ymwelwyd ag Ef yng Nghymru gyfan ac yn Rhanbarthau Cymru – Cyfartaledd Blynyddol 2017-2019**

*Ffynhonnell: Arolwg Twristiaeth Prydain*




**Sylwch ei bod hi'n bosibl y bydd y ffigurau'n creu cyfanswm mwy na 100% oherwydd y gallu i ymweld â mwy nag un Math o Le.*

Yn 2017-2019, roedd dros hanner (55 y cant) yr holl deithiau dros nos domestig gan ymwelwyr o Brydain i Ogledd Cymru yn ymweliadau â chyrchfan glan y môr, sy'n gyfran fwy nag ar gyfer Cymru ar gyfartaledd (43 y cant). Y math lleiaf poblogaidd o le i ymweld ag ef yng Ngogledd Cymru oedd dinas neu dref fawr, nad oedd ond i gyfrif am 5 y cant o deithiau, o gymharu ag 18 y cant o ymweliadau â Chymru'n gyffredinol. Aeth 24 y cant o ymwelwyr dros nos yn 2017-2019 i leoliad yng nghefn gwlad / mewn pentref a thref fechan (18 y cant) yng Ngogledd Cymru, sy'n debyg i'r cyfrannau yng Nghymru ar gyfartaledd.

Mae'n bwysig cofio mai ymatebwyr eu hunain sy'n dewis sut i ddisgrifio'r math o le y maent yn ymweld ag ef, felly mae'r ymatebion yn oddrychol. Er enghraifft, gallai rhywun alw eu lleoliad yn 'bentref' yn hytrach na 'thref fechan'.

## Math o lety a ddefnyddiwyd ar daith

Sylwch y gall ymwelwyr dros nos domestig o Brydain Fawr aros mewn mwy nag un math o lety yn ystod un daith. Oherwydd hyn, bydd cyfrannau'r holl deithiau fesul pob math o lety bob amser yn creu cyfanswm o fwy na 100 y cant. Ar ben hynny, dim ond y mathau o lety a chanddynt sampl digon mawr i'w ddadansoddi ar draws pob un o bedwar rhanbarth Cymru sydd wedi'u cynnwys yn yr adran hon.


Gweler [Tabl 7.6](#) am restr lawn o atebion posibl sydd wedi'u cynnwys o dan bob math o lety er mwyn cyfrifo'r cyfartaleddau tair blynedd.

**Tabl 2.5 Nifer y Teithiau dros nos domestig gan Ymwelwyr o Brydain (miliynau) yn ôl Math o Lety a Ddefnyddiwyd yn ystod taith i Gymru a Gogledd Cymru - Cyfartaledd Blynyddol 2017-2019**
*Ffynhonnell: Arolwg Twristiaeth Prydain*

| | Cymru Gyfan | Gogledd Cymru |
|---|---|---|
| **Cyfanswm y Teithiau** | **9.914** | **3.653** |
| Gwesty / Motel | 2.452 | 0.850 |
| Tŷ Llety/Ffermdy/Gwely a Brecwast | 0.720 | 0.304 |
| Llety Hunanddarpar | 1.341 | 0.523 |
| Cartref ffrind/Cartref perthynas/Ail gartref/Cyfran gyfnodol | 2.702 | 0.809 |
| Carafanio a Gwersylla | 2.586 | 1.114 |

Yn 2017-2019, y math mwyaf poblogaidd o lety a ddefnyddiwyd ar daith dros nos ddomestig gan ymwelwyr o Brydain i Ogledd Cymru oedd 'Carafanio a Gwersylla', gydag 1.114 miliwn o deithiau (30 y cant o'r holl deithiau). Yn ystod yr un cyfnod, y math mwyaf poblogaidd o lety a ddefnyddiwyd yng Nghymru gyfan oedd 'cartref ffrind/cartref perthynas/ail gartref/cyfran gyfnodol', a oedd i gyfrif am ychydig dros chwarter (27 y cant) o deithiau. Yng Ngogledd Cymru gwelwyd cyfran lai o arosiadau yng nghartref ffrind/perthynas/ mewn ail gartref (22 y cant) nag yng Nghymru ar gyfartaledd, a chyfran fwy lle defnyddiwyd 'Carafán a Safle Gwersylla', ond cyfrannau tebyg yn y categorïau llety eraill.

**Dangosyn 2.10 Cyfran (%) y Teithiau Dros Nos Domestig o Brydain i Gymru Gyfan a Rhanbarthau Cymru yn ôl Math o Lety - Cyfartaledd Blynyddol 2017-2019**
*Ffynhonnell: Arolwg Twristiaeth Prydain*




| Tabl 2.6 Gwerth Gwariant Cysylltiedig (£ miliynau) o deithiau dros nos domestig gan ymwelwyr o Brydain yn ôl Math o Lety a Ddefnyddiwyd yn ystod taith i Gymru ac i Ogledd Cymru - Cyfartaledd Blynyddol 2017-2019<br>*Ffynhonnell: Arolwg Twristiaeth Prydain* | Cymru Gyfan | Gogledd Cymru |
|---|---|---|
| **Cyfanswm Gwariant** | **£1,828** | **£682** |
| Gwesty / Motel | £557 | £206 |
| Tŷ Llety/Ffermdy/Gwely a Brecwast | £195 | £79 |
| Llety Hunanddarpar | £395 | £154 |
| Cartref ffrind/Cartref perthynas/Ail gartref/Cyfran gyfnodol | £233 | £61 |
| Carafanio a Gwersylla | £362 | £154 |

Er bod arosiadau mewn 'cartref ffrind/perthynas/ail gartref/cyfran gyfnodol yn 2017-2019 i gyfrif am gyfran sylweddol o nifer y teithiau, 22 y cant yng Ngogledd Cymru a 27 y cant yng Nghymru gyfan, roedd y teithiau hyn yn cyfrannu at gyfran llawer llai o wariant cysylltiedig, sef 9 y cant yng Ngogledd Cymru ac 13 y cant yng Nghymru gyfan.

Yng Ngogledd Cymru ac yn Gymru'n gyffredinol, cyfrannodd arosiadau mewn 'Gwesty/Motel' at gyfran fwy o wariant cysylltiedig na nifer y teithiau. Yng Ngogledd Cymru, roedd arosiadau 'Gwesty/Motel' i gyfrif am 23 y cant o deithiau (850,000), ond yn cyfrannu at 30 y cant (£206 miliwn) o'r holl wariant.  Yn yr un modd, roedd teithiau a oedd yn cynnwys llety hunanddarpar i gyfrif am 14 y cant o nifer y teithiau, ond 23 y cant o wariant cysylltiedig.

**Dangosyn 2.11 Cyfran (%) y Gwariant yn Gysylltiedig â Theithiau Dros Nos Domestig o Brydain i Gymru Gyfan ac i Ranbarthau Cymru yn ôl Math o Lety – Cyfartaledd Blynyddol 2017-2019**
*Ffynhonnell: Arolwg Twristiaeth Prydain*



**Rhanbarth Tarddiad**

**Tabl 2.7 Nifer y Teithiau dros nos domestig gan Ymwelwyr o Brydain (miliynau) yn ôl Rhanbarth Tarddiad yng Nghymru gyfan ac yng Ngogledd Cymru - Cyfartaledd Blynyddol 2017-2019**
*Ffynhonnell: Arolwg Twristiaeth Prydain*

| | Cymru Gyfan | | Gogledd Cymru | |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y Teithiau** | 9.914 | **100%** | **3.653** | **100%** |
| Yr Alban | 0.111 | 1% | 0.043 | 1% |
| Cymru | 1.76 | 18% | 0.443 | 12% |
| Lloegr | 8.044 | 81% | 3.168 | 87% |
| | | | | |
| Gogledd Ddwyrain Lloegr | 0.088 | 1% | 0.051 | 1% |
| Gogledd-orllewin Lloegr | 1.976 | 20% | 1.441 | 39% |
| Swydd Efrog a Humber | 0.403 | 4% | 0.182 | 5% |
| Dwyrain Canolbarth Lloegr | 0.669 | 7% | 0.242 | 7% |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | 1.921 | 19% | 0.700 | 19% |
| Dwyrain Lloegr | 0.373 | 4% | 0.101 | 3% |
| Llundain | 0.577 | 6% | 0.134 | 4% |
| De-ddwyrain Lloegr | 1.132 | 11% | 0.206 | 6% |
| De-orllewin Lloegr | 0.905 | 9% | 0.111 | 3% |

o'r holl ranbarthau yng Nghymru, Gogledd Cymru oedd â'r gyfran fwyaf o deithiau dros nos domestig gan ymwelwyr o Loegr (87 y cant) yn 2017-2019. Ar ben hynny, dros yr un cyfnod roedd ganddo'r gyfran leiaf o ymweliadau dros nos o Gymru (12 y cant).

Roedd bron i ddwy ran o bump (39 y cant) deithiau dros nos domestig gan ymwelwyr o Brydain â Gogledd Cymru yn tarddu o Ogledd-orllewin Cymru, gyda phumed rhan arall (19 y cant) yn dod o Orllewin Canolbarth Lloegr. Yng Nghymru ar gyfartaledd, roedd y gyfran fwyaf o ymwelwyr yn tarddu o Ogledd-orllewin Lloegr, sef 20 y cant, ac yn fuan wedyn Gorllewin Canolbarth Lloegr, a oedd i gyfrif am 19 y cant o ymwelwyr â Chymru.


## 3. Ymwelwyr Rhyngwladol â Chymru

Casglwyd yr holl ddata a ddefnyddiwyd ar gyfer yr adran hon o'r Arolwg Teithwyr Rhyngwladol. Cyfartaleddau a gymerwyd dros dair blynedd, 2017-2019, yw'r ffigurau a ddangosir, oni nodir fel arall.

Ym mis Mai 2020, cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol amcangyfrifon diwygiedig o'r Arolwg Teithwyr Rhyngwladol ar gyfer ymweliadau i mewn rhwng 2009 a 2019 yn seiliedig ar ddiweddariad o'r dull pwysoli. Ceir manylion pellach ar Dudalennau teithio a thwristiaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Mae'r adran hon yn defnyddio fersiwn wedi'i diweddaru o'r data, felly ni fydd ffigurau a ddyfynnir yma ar gyfer 2009 hyd 2018 yn cyfateb â'r ffigurau mewn cyhoeddiadau blaenorol. Mae tablau sy'n crynhoi'r data gwreiddiol a diwygiedig ar gyfer 2009-2019 yn Nhabl 7.2.

**Dangosyn 3.0 Cyfran (%) yr Ymweliadau Rhyngwladol â Chymru yn ôl Rhanbarth Cymru – Cyfartaledd Blynyddol 2017-2019**
*Ffynhonnell: Arolwg Teithwyr Rhyngwladol*





**Sylwch y gallai'r ffigurau greu cyfanswm mwy na 100 y cant oherwydd y gallu i ymweld â mwy nag un rhanbarth.*

Dros 2017-2019, derbyniodd Gogledd Cymru gyfartaledd blynyddol o 299,000 o ymweliadau rhyngwladol bob blwyddyn. Dros yr un cyfnod cyfrannodd yr ymweliadau hyn at gyfartaledd o £89 miliwn y flwyddyn at wariant twristiaeth yn y rhanbarth hwn. Derbyniodd Gogledd Cymru oddeutu 3 o bob 10 (29 y cant) ymweliad rhyngwladol â Chymru, cyfran debyg ag a gafwyd yn ystod y cyfnod blaenorol 2016-2018.

## Nifer yr Ymweliadau a Gwariant Cysylltiedig

**Dangosyn 3.1 Nifer yr Ymweliadau Rhyngwladol (miloedd) a Gwariant Cysylltiedig (£ miliynau) yng Ngogledd Cymru – Cyfartaleddau Blynyddol dros Dair Blynedd**
*Ffynhonnell: Arolwg Teithwyr Rhyngwladol*





O uchafbwynt o 304,000 o ymweliadau yn 2007-2009, gostyngodd nifer yr ymweliadau rhyngwladol â Gogledd Cymru yn gyson, gan gyrraedd isafbwynt o 229,000 o ymweliadau yn 2012-2014. Yn dilyn hyn, bu cynnydd parhaus, gyda nifer yr ymweliadau'n cyrraedd 303,000 yn 2016-2018 - ychydig yn is na'r uchafbwynt blaenorol, cyn gostwng eto yn 2017-2019 i 299,000.

Cafwyd tuedd i gynyddu ar y cyfan mewn gwariant blynyddol cyfartalog cysylltiedig, o £77 miliwn yn 2006-2008 i gyrraedd £92 miliwn yn 2015-2017, cyn gostwng ychydig i £90 miliwn yn 2016-2018, ac eto i £89 miliwn yn 2017-2019.

## Gwariant Cyfartalog fesul Ymweliad


**Dangosyn 3.2 Gwariant Cyfartalog fesul Ymweliad Rhyngwladol (£) yng Nghymru Gyfan ac yng Ngogledd Cymru – Cyfartaleddau Blynyddol dros Dair Blynedd**
*Ffynhonnell: Arolwg Teithwyr Rhyngwladol*




Yn dilyn cynnydd rhwng 2006-2008 a 2010-2012 o £260 i £330, arhosodd y gwariant cyfartalog fesul ymweliad rhyngwladol â Gogledd Cymru yn wastad hyd 2012-2014, cyn dechrau gostwng, gan gyrraedd £298 yn 2016-2018 ac aros yn wastad hyd at 2017-2019. Mae lefelau'r gwariant cyfartalog fesul ymweliad wedi bod yn gyson is na chyfartaledd Cymru gyfan, ond mae'r hyd teithiau cyfartalog (gweler Dangosyn 3.3) yng Ngogledd Cymru wedi bod yn is na chyfartaledd Cymru dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf ar y cyfan. Mae'r gwariant cyfartalog fesul ymweliad rhyngwladol â Chymru yn tueddu i gynyddu ar y cyfan, ac fe gododd y ffigur o £421 yn 2016-2018 i £431 yn 2017-2019.

### Nifer cyfartalog y Nosweithiau fesul Ymweliad

**Dangosyn 3.3 Nifer Cyfartalog y Nosweithiau fesul Ymweliad Rhyngwladol â Chymru a Gogledd Cymru - Cyfartaleddau Blynyddol dros Dair Blynedd**
*Ffynhonnell: Arolwg Teithwyr Rhyngwladol*




Cyrhaeddodd nifer cyfartalog y nosweithiau fesul ymweliad rhyngwladol â Gogledd Cymru uchafbwynt ar 7.30 o nosweithiau yn 2011-2013. Dechreuodd ostwng ar ôl hynny, gan ddisgyn eto yn 2017-2019 i 5.25 o nosweithiau fesul ymweliad.  Yn ystod yr un cyfnod arhosodd cyfartaledd Cymru gyfan

### Diben y Daith

**Tabl 3.1 Nifer yr Ymweliadau Rhyngwladol (miloedd) yn ôl Diben y Daith yng Nghymru Gyfan ac yng Ngogledd Cymru - Cyfartaledd Blynyddol 2017-2019**
*Ffynhonnell: Arolwg Teithwyr Rhyngwladol*


| | Cymru Gyfan | Gogledd Cymru |
|---|---|---|
| **Cyfanswm y Teithiau** | **1,041** | **299** |
| Gwyliau | 424 | 138 |
| Busnes | 159 | 33 |
| Ymweld â Ffrindiau a Pherthnasau | 382 | 88 |
| Arall | 65 | 37 |
| Astudio | 11 | 3 |

Yn 2017-2019, daeth bron i hanner (46 y cant) yr holl ymwelwyr rhyngwladol i Ogledd Cymru ar wyliau, sy'n gyfran fwy na chyfartaledd Cymru (41 y cant).

Daeth ychydig llai na thraean (29 y cant) o ymwelwyr rhyngwladol i Ogledd Cymru i ymweld â

ffrindiau a pherthnasau - cyfartaledd llai na'r hyn a gafwyd yng Nghymru gyfan (37 y cant). Derbyniodd Gogledd Cymru hefyd gyfran lai o ymwelwyr busnes (11 y cant) na Chymru gyfan (15 y cant).

**Dangosyn 3.4 Cyfran (%) yr Ymweliadau Rhyngwladol â Chymru Gyfan a Rhanbarthau Cymru yn ôl Diben y Daith – Cyfartaledd Blynyddol 2017-2019**
*Ffynhonnell: Arolwg Teithwyr Rhyngwladol*





**Tabl 3.2 Gwariant yn Gysylltiedig (£ miliwn) ag Ymweliadau Rhyngwladol yn ôl Diben y Daith yng Nghymru Gyfan ac yng Ngogledd Cymru - Cyfartaledd Blynyddol 2017-2019**
*Ffynhonnell: Arolwg Teithwyr Rhyngwladol*

| | Cymru Gyfan | Gogledd Cymru |
|---|---|---|
| **Cyfanswm Gwariant** | **448.4** | 89.1 |
| Gwyliau | 178.2 | 45.6 |
| Busnes | 63.6 | 7.8 |
| Ymweld â Ffrindiau a Pherthnasau | 151.0 | 22.6 |
| Arall | 20.2 | 8.4 |
| Astudio | 35.5 | 4.7 |

**Dangosyn 3.5 Cyfran (%) y Gwariant yn Gysylltiedig ag Ymweliadau Rhyngwladol â Chymru Gyfan a Rhanbarthau Cymru yn ôl Diben y Daith – Cyfartaledd Blynyddol 2017-2019**

*Ffynhonnell: Arolwg Teithwyr Rhyngwladol*




Yn 2017-2019, cynhyrchodd ymwelwyr rhyngwladol a oedd yn dod i Ogledd Cymru i astudio 5 y cant (£4.7 miliwn) o'r holl wariant yn gysylltiedig â thwristiaeth ryngwladol yn y rhanbarth, er nad oedd y teithiau hynny ond yn cynrychioli 1 y cant o'r holl ymweliadau rhyngwladol. Roedd ymweliadau â ffrindiau neu berthnasau yng Ngogledd cymru i gyfrif am gyfran lai o wariant (25 y cant) na nifer y teithiau (29 y cant), ond roedd ymweliadau gwyliau i gyfrif am ychydig mwy o wariant (51 y cant) na nifer y teithiau (46 y cant).

**Gwlad Tarddiad**

Sylwch nad yw Tabl 3.3 ond yn dangos deg gwlad tarddiad uchaf ymwelwyr rhyngwladol yn ôl nifer yr ymweliadau â Gogledd Cymru a Chymru gyfan.

**Tabl 3.3 Y 10 Uchaf o blith Gwledydd Tarddiad Ymweliadau Rhyngwladol ar sail Nifer yr Ymweliadau (000oedd) a chyfrannau (%) ar gyfer Cymru gyfan a Gogledd Cymru - Cyfartaledd Blynyddol 2017-2019**
*Ffynhonnell: Arolwg Teithwyr Rhyngwladol*

| Cymru Gyfan | | | Gogledd Cymru | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Pob Ymweliad** | **1,041** | **100%** | **Pob Ymweliad** | **299** | **100%** |
| 1. Iwerddon | 164 | 16% | 1. Iwerddon | 85 | 28% |
| 2. UDA | 108 | 10% | 2. UDA | 37 | 12% |
| 3. Yr Almaen | 80 | 8% | 3. Yr Almaen | 27 | 9% |
| 4. Ffrainc | 73 | 7% | 4. Awstralia | 16 | 5% |
| 5. Yr Iseldiroedd | 58 | 6% | 5. Yr Iseldiroedd | 15 | 5% |
| 6. Awstralia | 53 | 5% | 6. Gwlad Pwyl | 12 | 4% |
| 7. Sbaen | 47 | 4% | 7. Ffrainc | 10 | 3% |
| 8. Yr Eidal | 41 | 4% | 8. Sbaen | 10 | 3% |
| 9. Gwlad Pwyl | 36 | 3% | 9. Y Swistir | 9 | 3% |
| 10. Canada | 31 | 3% | 10. Canada | 8 | 3% |

Y wlad tarddiad fwyaf cyffredin ar gyfer ymwelwyr rhyngwladol â Gogledd Cymru oedd Iwerddon gyda 28 y cant o ymweliadau, ac wedyn UDA (12 y cant) a'r Almaen (9 y cant).


Roedd gwledydd tebyg wedi'u rhestru yn 10 uchaf Gogledd Cymru i'r 10 a restrwyd ar gyfer Cymru'n gyffredinol. Yr unig wahaniaeth oedd y Swistir, oedd i gyfrif am 3 y cant o ymweliadau â Gogledd Cymru, sy'n cymryd lle'r Eidal nad yw wedi'i chynnwys yn 10 uchaf Gogledd Cymru.

## 4. Ymweliadau Undydd Twristiaeth

Casglwyd yr holl ddata a ddefnyddiwyd ar gyfer yr adran hon o Arolwg ymweliadau undydd Prydain. Ceir tri math o ymweliad undydd: 'ymweliadau undydd Hamdden 3 awr+', 'ymweliadau undydd twristiaeth, a 'Gweithgareddau sy'n Graidd i Ymweliadau Twristiaeth'. **Nid yw'r adran hon ond yn trafod ffigurau ar gyfer ymweliadau undydd twristiaeth.** Ceir hyd i ffigurau ar gyfer ymweliadau undydd eraill i ddibenion hamdden yn Adroddiadau Blynyddol ymweliadau undydd Prydain. Cyfartaleddau a gymerwyd dros dair blynedd yw'r ffigurau a ddangosir, oni nodir fel arall: 2017-2019.

*Sylwch fod y dull o gynnal yr arolwg wedi cael ei ddiwygio droeon ers 2016, a bod hynny wedi effeithio ar y gallu i gymharu ffigurau 2011-2015 â'r ffigurau o 2016 ymlaen. I unioni hyn, mae'r ffigurau cyn 2016 wedi'u hailbwysoli ar sail +15 y cant fel bo modd eu cymharu. Mae'n bosibl felly nad yw rhai o'r ffigurau isod ar gyfer ymweliadau undydd Twristiaeth yn cyfateb â'r rhai a gyhoeddwyd yn flaenorol.*


**Dangosyn 4.0 Cyfran (%) yr Ymweliadau Undydd Twristiaeth â Phob Rhanbarth yng Nghymru – Cyfartaledd Blynyddol 2017-2019**
*Ffynhonnell: Arolwg Ymweliadau Undydd Prydain*




Yn ystod 2017-2019, derbyniodd Gogledd Cymru gyfartaledd blynyddol o 23 miliwn o ymweliadau undydd gyda gwariant cysylltiedig o £703 miliwn.  Gogledd Cymru oedd i gyfrif am bron i chwarter (24 y cant) o'r holl ymweliadau undydd twristiaeth â Chymru.

## Ymweliadau Undydd Twristiaeth a Gwariant Cysylltiedig

**Dangosyn 4.1 Nifer yr Ymweliadau Dydd Twristiaeth (miliynau) a Gwariant Cysylltiedig (£ miliynau) yng Ngogledd Cymru - Cyfartaleddau Blynyddol dros Dair Blynedd**
*Ffynhonnell: Arolwg Ymweliadau Undydd Prydain*





Mae nifer cyfartalog blynyddol yr ymweliadau undydd twristiaeth wedi gostwng rhyw fymryn dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, ac yn 2017-2019, gostyngodd y rhain o 25 miliwn i 23 miliwn.

Mae gwariant cysylltiedig ar ymweliadau undydd twristiaeth yng Ngogledd Cymru wedi tueddu i amrywio dros y blynyddoedd, gan gynyddu ar ôl 2011-2013, wedyn gostwng eto ar ôl 2012-2014. Gostyngodd gwariant yn sydyn rhwng 2016-2018 a 2017-2019 o £920 miliwn i £703 miliwn.

## Gwariant Cyfartalog fesul Ymweliad

**Dangosyn 4.2 Gwariant Cyfartalog fesul Ymweliad Dydd Twristiaeth (£) yng Nghymru Gyfan ac yng Ngogledd Cymru - Cyfartaleddau Blynyddol dros Dair Blynedd**
*Ffynhonnell: Arolwg Ymweliadau Undydd Prydain*




Rhwng 2012-2014 a 2014-2016, roedd y gwariant cyfartalog fesul ymweliad undydd twristiaeth yng Ngogledd Cymru yn uwch na chyfartaledd Cymru. Fodd bynnag, mae'r gwariant cyfartalog fesul ymweliad undydd twristiaeth yng Ngogledd Cymru wedi bod yn is na chyfartaledd Cymru ers 2015-2017, ac yn 2017-2019, gostyngodd hyn yn sydyn o £37 i £31, er i gyfartaledd Cymru gyfan aros yn sefydlog ar £42.

**Gweithgareddau a gyflawnwyd**

**Tabl 4.1 Nifer yr ymweliadau undydd twristiaeth (miliynau) a Chyfran (%) y gweithgareddau a gyflawnwyd yn ystod ymweliad undydd twristiaeth yng Nghymru Gyfan ac yng Ngogledd Cymru - Cyfartaledd Blynyddol 2017-2019**
*Ffynhonnell: Arolwg ymweliadau undydd Prydain*

| Cymru Gyfan | | | | Gogledd Cymru | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Pob Ymweliad** | **94.4** | **100%** | | **Pob Ymweliad** | **22.7** | **100%** |
| Ymweld â ffrindiau/perthnasau | 22.0 | 23% | | Ymweld â ffrindiau/perthnasau | 5.2 | 23% |
| Mynd allan am bryd o fwyd | 9.7 | 10% | | Mynd allan am bryd o fwyd | 3.1 | 14% |
| Gweithgareddau awyr agored | 8.7 | 9% | | Gweithgareddau awyr agored | 2.0 | 9% |
| Diwrnod allan cyffredinol | 7.8 | 8% | | Diwrnod allan cyffredinol | 2.4 | 11% |
| Mynd ar noson allan | 6.8 | 7% | | Mynd ar noson allan | 1.1 | 5% |
| Siopa arbennig | 6.3 | 7% | | Siopa arbennig | 1.2 | 5% |
| Mynd allan am adloniant | 4.8 | 5% | | Mynd allan am adloniant | 1.0 | 4% |
| Mynd i atyniadau ymwelwyr | 4.5 | 5% | | Mynd i atyniadau ymwelwyr | 1.0 | 4% |
| Gwylio digw. chwaraeon byw | 3.4 | 4% | | Gwylio digw. chwaraeon byw | 0.5 | 2% |
| Achlysuron personol arbennig | 2.9 | 3% | | Achlysuron personol arbennig | 0.6 | 3% |
| Digw. cyhoeddus arbennig | 2.5 | 3% | | Digw. cyhoeddus arbennig | 0.6 | 3% |
| Cymryd rhan mewn chwaraeon | 1.4 | 1% | | Cymryd rhan mewn chwaraeon | 0.3 | 1% |
| Diwrnod allan i sba iechyd/harddwch | 0.7 | 1% | | Diwrnod allan i sba iechyd/harddwch | 0.1 | 1% |
| Hamdden / hobïau eraill | 2.1 | 2% | | Hamdden / hobïau eraill | 0.5 | 2% |
| Diwrnod arall allan i ddibenion hamdden | 3.2 | 3% | | Diwrnod arall allan i ddibenion hamdden | 1.0 | 4% |

Roedd ychydig dros bumed rhan (23 y cant, 5.2 miliwn) o ymwelwyr undydd twristiaeth yng Ngogledd Cymru yn 2017-2019 yn ymweld â ffrindiau neu berthnasau, gan olygu mai dyma oedd y gweithgaredd mwyaf poblogaidd. Gwelwyd hyn hefyd yng Nghymru gyfan, lle'r oedd 23 y cant (22.0 miliwn) o ymweliadau undydd twristiaeth yn ymweliadau i weld ffrindiau neu berthnasau yn 2017-2019.

Roedd cyfran uwch o ymweliadau undydd twristiaeth â Gogledd Cymru yn ymweliadau i fynd allan am bryd o fwyd (14 y cant), ac ar gyfer 'diwrnod allan cyffredinol' (11 y cant) o gymharu â chyfartaledd Cymru. I'r gwrthwyneb, roedd cyfran lai o ymweliadau undydd twristiaeth â Gogledd

Cymru yn ymweliadau ar gyfer noson allan (5 y cant) ar gyfer siopa arbennig (5 y cant) ac i wylio digwyddiad chwaraeon byw (2 y cant), o gymharu â Chymru gyfan.

### Math o le yr ymwelwyd ag ef


**Tabl 4.2 Nifer yr ymweliadau undydd Twristiaeth (miliynau) yn ôl Math o Le yr Ymwelwyd ag Ef yng Nghymru gyfan ac yng Ngogledd Cymru - Cyfartaledd Blynyddol 2017-2019**
*Ffynhonnell: Arolwg ymweliadau undydd Prydain*

| | Cymru Gyfan | Gogledd Cymru |
|---|---|---|
| **Cyfanswm yr Ymweliadau** | **94** | **23** |
| Dinas / Tref fawr | 29 | 4 |
| Tref fach | 24 | 6 |
| Pentref / Cefn Gwlad | 24 | 7 |
| Glan y Môr / Yr Arfordir | 17 | 6 |

Yng Ngogledd Cymru, y mathau o lefydd yr ymwelwyd â hwy amlaf ar ymweliad undydd twristiaeth yn ystod 2017-2019 oedd pentref/cefn gwlad, sef tua 3 o bob 10 (29 y cant) ymweliad; ac wedyn glan y môr/yr arfordir a threfi bychain a oedd i gyfrif am dros chwarter (26 y cant) y teithiau hynny.

Mewn cymhariaeth â Chymru'n gyffredinol, derbyniodd Gogledd Cymru gyfran fwy o ymweliadau â glan y môr / â'r arfordir (18 y cant yng Nghymru gyfan) a chyfran lai o ymweliadau â dinas neu dref fawr (15 y cant o gymharu â 30 y cant yng Nghymru gyfan).

**Dangosyn 4.3 Cyfran (%) yr Ymweliadau Dydd Twristiaeth â Chymru Gyfan a Rhanbarthau Cymru yn ôl Math o Le yr Ymwelwyd ag Ef - Cyfartaledd Blynyddol 2017-2019**
*Ffynhonnell: Arolwg Ymweliadau Undydd Prydain*





*Sylwch ei bod hi'n bosibl nad yw'r ffigurau'n creu cyfanswm o 100 y cant gan fod rhai cyfranogwyr heb ateb y cwestiwn hwn neu wedi dewis 'Ddim yn Gwybod/Arall'.*

## Dull Teithio a Ddefnyddiwyd

**Tabl 4.3 Nifer yr Ymweliadau Undydd Twristiaeth (miliynau) yn ôl Dull Teithio yng Nghymru Gyfan ac yng Ngogledd Cymru - Cyfartaledd Blynyddol 2017-2019**
*Ffynhonnell: Arolwg ymweliadau undydd Prydain*

| | Cymru Gyfan | Gogledd Cymru |
|---|---|---|
| **Cyfanswm yr Ymweliadau** | **94** | **23** |
| Car - ei hun/ffrind/teulu | 66 | 16 |
| Trên | 8 | 1 |
| Cerdded | 6 | 1 |
| Bws\coets | 5 | 1 |
| Arall | 9 | 2 |

**Dangosyn 4.4 Cyfran (%) yr Ymweliadau Undydd Twristiaeth â Chymru Gyfan a Rhanbarthau Cymru yn ôl Dull Teithio a Ddefnyddiwyd - Cyfartaledd Blynyddol 2017-2019**
*Ffynhonnell: Arolwg Ymweliadau Undydd Prydain*




**Mae'r categori 'Arall' yn cynnwys: car llog, taith coets wedi'i threfnu, tacsi, beic, tiwb, tram, carafan modur/campyrfan, awyren, cwch, lori/fan*

Fel y gwelwyd yn rhanbarthau eraill Cymru, y car oedd y dull teithio a ffafriwyd fwyaf yng Ngogledd Cymru, gyda mwyafrif (71 y cant) yr ymwelwyr undydd twristiaeth yn dewis teithio drwy'r dull hwn yn 2017-2019. Yng Ngogledd Cymru gwelwyd cyfrannau tebyg o ymweliadau undydd twristiaeth lle defnyddiwyd mathau eraill o drafnidiaeth â'r cyfrannau ar gyfer Cymru gyfan yn 2017-2019.

### Pellter a deithiwyd


**Tabl 4.4 Nifer yr Ymweliadau Undydd Twristiaeth (miliynau) yn ôl Pellter a Deithiwyd yng Nghymru Gyfan ac yng Ngogledd Cymru - Cyfartaledd Blynyddol 2017-2019**
*Ffynhonnell: Arolwg ymweliadau undydd Prydain*

| | Cymru Gyfan | Gogledd Cymru |
|---|---|---|
| **Cyfanswm yr Ymweliadau** | **94** | **23** |
| Llai na 5 milltir | 14 | 3 |
| Rhwng 5 a 10 milltir | 14 | 4 |
| 11 i 20 milltir | 15 | 3 |
| 21 i 40 milltir | 13 | 2 |
| 41 i 100 milltir | 17 | 5 |
| Dros 100 milltir | 15 | 3 |

**Sylwch fod y categorïau pellter teithio yn amrywio o ran maint.*

Mae dosbarthiad y pellteroedd a deithiwyd ar gyfer ymweliadau undydd twristiaeth yn ystod 2017-2019 yng Ngogledd Cymru yn cyd-fynd yn fras â'r dosbarthiad yng Nghymru ar gyfartaledd. Roedd 3 o bob 10 ymweliad yng Ngogledd Cymru (30 y cant) yn cynnwys teithio hyd at 10 milltir, o gymharu â 29 y cant yng Nghymru ar gyfartaledd.  Roedd dros draean (37 y cant) yr ymweliadau undydd twristiaeth yng Ngogledd Cymru yn cynnwys teithio dros 41 milltir, sef cyfran ychydig yn fwy na chyfartaledd Cymru (34 y cant).

**Dangosyn 4.5 Cyfran (%) yr Ymweliadau Dydd Twristiaeth â Chymru Gyfan a Rhanbarthau Cymru yn ôl Pellter a Deithiwyd - Cyfartaledd Blynyddol 2017-2019**
*Ffynhonnell: Arolwg Ymweliadau Undydd Prydain*





**Sylwch ei bod hi'n bosibl nad yw'r ffigurau'n creu cyfanswm o 100 y cant gan fod rhai cyfranogwyr heb ateb y cwestiwn hwn neu wedi dewis 'Ddim yn Gwybod/Arall'.*

# 5. Cyfraddau Deiliadaeth Llety

Casglwyd yr holl ddata a ddefnyddiwyd ar gyfer yr adran hon o Arolwg Deiliadaeth Llety Twristiaeth Cymru. Cyfartaleddau a gymerwyd dros dair blynedd, 2017-2019, yw'r ffigurau a ddangosir, oni nodir fel arall. Gweler Tabl 7.5 am y set ddata lawn.

### Gwestai


**Dangosyn 5.0 Cyfraddau Deiliadaeth Ystafelloedd Gwestai - Cyfartaledd Blynyddol dros Dair Blynedd (%) ar gyfer Cymru Gyfan a Gogledd Cymru**
*Ffynhonnell: Arolwg Deiliadaeth Croeso Cymru*




Roedd cyfraddau deiliadaeth ystafelloedd gwesty yng Ngogledd Cymru wedi bod yn gyson uwch na chyfradd gyfartalog Cymru hyd 2013-2015, ac yn 2016-2018 gostyngodd yn is na 65 y cant, a gostwng 1 pwynt canran arall yn 2017-2019 i 64 y cant. Arhosodd cyfartaledd Cymru yr un peth â'r cyfnod blaenorol, sef 66 y cant yn 2017-2019.

### Gwestai Bach a Gwely a Brecwast


**Dangosyn 5.1 Cyfraddau Deiliadaeth Ystafelloedd Gwestai Bach/Gwely a Brecwast (%) - Cyfartaledd Blynyddol dros Dair Blynedd ar gyfer Cymru Gyfan a Gogledd Cymru**
*Ffynhonnell: Arolwg Deiliadaeth Croeso Cymru*



Roedd cyfraddau deiliadaeth gwestai bach/gwely a brecwast yng Ngogledd Cymru wedi aros yn gymharol wastad dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, ond gostyngodd y rhain o 38 y cant yn 2016-2018 i 35 y cant yn 2017-2019, gan ostwng yn is na chyfartaledd Cymru o 37 y cant.

## Hunanddarpar


**Dangosyn 5.2 Cyfraddau Deiliadaeth Unedau Hunanddarpar (%) - Cyfartaledd Blynyddol dros Dair Blynedd ar gyfer Cymru Gyfan a Gogledd Cymru**
*Ffynhonnell: Arolwg Deiliadaeth Croeso Cymru*




Mae cyfraddau deiliadaeth unedau hunanddarpar yng Ngogledd Cymru wedi cynyddu'n gyson dros y blynyddoedd diwethaf. Yn 2017-2019, cyfraddau deiliadaeth Gogledd Cymru oedd yr uchaf o blith holl ranbarthau Cymru, ar 62 y cant, o gymharu â chyfartaledd Cymru o 57 y cant.

## Carafanau Statig a Chartrefi Gwyliau[1]

**Dangosyn 5.3 Cyfraddau Deiliadaeth (%) Unedau Carafan Statig a Chartrefi Gwyliau - Cyfartaledd Mai i Hydref dros Dair Blynedd ar gyfer Cymru Gyfan a Gogledd Cymru**
*Ffynhonnell: Arolwg Deiliadaeth Croeso Cymru*





[1]Mae cyfradd deiliadaeth Carafanau Statig a Chartrefi Gwyliau yng Ngogledd Cymru yn seiliedig ar sampl bychan.

Ers 2012-2014 mae cyfraddau deiliadaeth unedau Carafanau Statig a Chartrefi Gwyliau yng Ngogledd Cymru wedi gostwng yn gyflym. Y rhanbarth hwn oedd â'r cyfraddau isaf o blith holl ranbarthau Cymru ar gyfer y math hwn o lety yn 2017-2019, ar 45y cant, gyda chynnydd o 1 pwynt canran yn unig ers 2016-2018. Mae'r gyfradd deiliadaeth yng Nghymru ar gyfartaledd wedi aros yn fwy sefydlog, ond gwelwyd rhywfaint o dwf dros yr ychydig gyfnodau diwethaf, er i'r gyfradd aros yn wastad ar 88 y cant rhwng 2016-2018 a 2017-2019.

## Carafanau Teithiol a Gwersylla


**Dangosyn 5.4 Cyfraddau Deiliadaeth (%) Lleiniau Carafanau Teithiol a Gwersylla - Cyfartaledd Mai i Hydref dros Dair Blynedd ar gyfer Cymru Gyfan a Gogledd Cymru**
*Ffynhonnell: Arolwg Deiliadaeth Croeso Cymru*




Gostyngodd cyfradd deiliadaeth lleiniau carafán a gwersylla yng Ngogledd Cymru 1 pwynt canran o 2016-2018 i 41 y cant yn 2017-2019, tra cododd cyfartaledd Cymru gyfan 1 pwynt canran i 43 y cant.

## Hosteli

**Dangosyn 5.5 Cyfraddau Defnydd (%) Gwelyau Hosteli - Cyfartaledd Blynyddol dros Dair Blynedd ar gyfer Cymru Gyfan a Gogledd Cymru**
*Ffynhonnell: Arolwg Deiliadaeth Croeso Cymru*



Roedd cyfraddau deiliadaeth hosteli yng Ngogledd Cymru yn 2017-2019 yr un peth â'r gyfradd gyffredinol yng Nghymru (53 y cant).  Fodd bynnag, rhwng 2009-2011 a 2016-2018 roedd cyfraddau deiliadaeth yng Ngogledd Cymru wedi bod yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan.

## 6. Adnoddau Pellach

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ymchwil ac ystadegau twristiaeth rheolaidd, gan gynnwys:

Ystadegau Twristiaeth Swyddogol: Perfformiad Twristiaeth Cymru
Adroddiad cynhwysfawr sy'n cynnwys y data chwarterol diweddaraf o'r prif arolygon twristiaeth

Arolwg Twristiaeth Prydain
Arolwg defnyddwyr cenedlaethol sy'n cyfrif nifer a gwerth teithiau dros nos yr aeth trigolion Prydain arnynt.

Arolwg Ymweliadau Undydd Prydain
Arolwg defnyddwyr cenedlaethol sy'n cyfrif nifer a gwerth teithiau undydd yr aeth trigolion Prydain arnynt.

Arolwg Ymwelwyr Cymru
Cynhelir astudiaeth reolaidd bob ychydig o flynyddoedd er mwyn cael proffil manwl o ymwelwyr hamdden â Chymru, gan gynnwys adborth ar fodlonrwydd ymwelwyr.

Baromedr Busnes Twristiaeth
Arolwg rheolaidd a gynhelir ar ôl adegau penodol yn ystod y tymor twristiaeth blynyddol sy'n rhoi 'ciplun' o berfformiad y diwydiant.

Ymweliadau ag Atyniadau Twristiaeth
Arolwg ac adroddiad blynyddol sy'n monitro tueddiadau yn y sector atyniadau i ymwelwyr

Arolygon Deiliadaeth Llety Twristiaeth Cymru
Arolwg deiliadaeth sy'n darparu gwybodaeth am dueddiadau o ran y galw am lety i ymwelwyr yng Nghymru

Stoc gwelyau llety
Data ar nifer y sefydliadau llety twristiaeth a lleoedd gwely yng Nghymru fesul rhanbarth a math o lety
.

# 7. Atodiad

## Ymwelwyr Dros Nos Domestig o Brydain

**Tabl 7.1 Nifer y Teithiau Dros Nos Domestig gan Ymwelwyr o Brydain (miliwn) y Nosweithiau (miliwn) a'r Gwariant Cysylltiedig (£ miliwn) - Cyfartaleddau Blynyddol dros Dair Blynedd**
*Ffynhonnell: Arolwg Twristiaeth Prydain*

| | Teithiau (miliynau) | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2007-2009** | **2008-2010** | **2009-2011** | **2010-2012** | **2011-2013** | **2012-2014** | **2013-2015** | **2014-2016** | **2015-2017** | **2016-2018** | **2017-2019** |
| Prydain | 118.944 | 117.563 | 121.628 | 122.788 | 125.186 | 121.055 | 120.524 | 119.374 | 121.519 | 119.562 | 120.671 |
| Cymru | 8.718 | 8.669 | 9.084 | 9.322 | 9.743 | 9.845 | 10.127 | 9.919 | 9.593 | 9.451 | 9.914 |
| Gogledd Cymru | 3.030 | 3.184 | 3.264 | 3.417 | 3.488 | 3.655 | 3.713 | 3.626 | 3.428 | 3.378 | 3.653 |
| Canolbarth Cymru | 1.591 | 1.577 | 1.585 | 1.540 | 1.618 | 1.717 | 1.763 | 1.750 | 1.740 | 1.887 | 1.916 |
| De-ddwyrain Cymru | 2.124 | 1.943 | 2.027 | 2.110 | 2.310 | 2.231 | 2.473 | 2.471 | 2.463 | 2.252 | 2.307 |
| De-orllewin Cymru | 1.882 | 1.863 | 2.063 | 2.074 | 2.160 | 2.089 | 2.081 | 2.014 | 1.890 | 1.862 | 1.939 |
| | **Nosweithiau (miliynau)** | | | | | | | | | | |
| | **2007-2009** | **2008-2010** | **2009-2011** | **2010-2012** | **2011-2013** | **2012-2014** | **2013-2015** | **2014-2016** | **2015-2017** | **2016-2018** | **2017-2019** |
| Prydain | 379.046 | 372.160 | 378.725 | 378.989 | 383.059 | 370.464 | 366.751 | 362.068 | 368.704 | 366.920 | 371.003 |
| Cymru | 32.084 | 32.380 | 33.429 | 34.144 | 34.450 | 34.484 | 34.974 | 34.739 | 33.385 | 33.198 | 33.898 |
| Gogledd Cymru | 11.822 | 12.346 | 12.988 | 13.415 | 13.354 | 13.575 | 13.199 | 13.222 | 12.221 | 12.450 | 12.859 |
| Canolbarth Cymru | 6.026 | 6.204 | 6.131 | 6.087 | 6.244 | 6.535 | 6.794 | 6.819 | 6.730 | 6.977 | 6.650 |
| De-ddwyrain Cymru | 5.818 | 5.476 | 5.241 | 5.370 | 5.494 | 5.291 | 6.097 | 6.213 | 6.350 | 5.866 | 6.162 |
| De-orllewin Cymru | 7.558 | 7.382 | 7.983 | 8.066 | 8.243 | 8.166 | 8.153 | 7.907 | 7.468 | 7.321 | 7.573 |
| | **Gwariant (£ miliwn)** | | | | | | | | | | |
| | **2007-2009** | **2008-2010** | **2009-2011** | **2010-2012** | **2011-2013** | **2012-2014** | **2013-2015** | **2014-2016** | **2015-2017** | **2016-2018** | **2017-2019** |
| Prydain | £ 20,458 | £ 20,312 | £ 21,145 | £ 22,146 | £ 23,312 | £ 23,320 | £ 23,603 | £ 23,532 | £ 23,862 | £ 23,574 | £ 24,098 |
| Cymru | £ 1,403 | £ 1,413 | £ 1,523 | £ 1,587 | £ 1,673 | £ 1,673 | £ 1,802 | £ 1,800 | £ 1,764 | £ 1,723 | £ 1,828 |
| Gogledd Cymru | £ 495 | £ 508 | £ 544 | £ 545 | £ 582 | £ 591 | £ 639 | £ 639 | £ 613 | £ 626 | £ 682 |
| Canolbarth Cymru | £ 228 | £ 252 | £ 257 | £ 255 | £ 262 | £ 281 | £ 309 | £ 311 | £ 304 | £ 314 | £ 335 |
| De-ddwyrain Cymru | £ 328 | £ 302 | £ 309 | £ 349 | £ 374 | £ 361 | £ 418 | £ 421 | £ 422 | £ 373 | £ 393 |
| De-orllewin Cymru | £ 308 | £ 314 | £ 364 | £ 390 | £ 397 | £ 390 | £ 386 | £ 387 | £ 384 | £ 374 | £ 383 |

## Ymwelwyr Rhyngwladol

**Tabl 7.2 Nifer yr Ymweliadau Rhyngwladol (000oedd), Nosweithiau (000oedd) a'r Gwariant Cysylltiedig (£ miliwn) - Blynyddol gwreiddiol vs diwygiedig**
*Ffynhonnell: Arolwg Teithwyr Rhyngwladol*

| | Ymweliadau (000oedd) | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2009 | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 |
| Cymru - gwreiddiol | 991 | 890 | 879 | 854 | 869 | 933 | 970 | 1,074 | 1,079 | 941 | |
| Cymru - diwygiedig | 986 | 878 | 877 | 848 | 877 | 935 | 958 | 1,080 | 1,112 | 988 | 1,023 |

| | Nosweithiau (000oedd) | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2009 | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 |
| Cymru - gwreiddiol | 6,288 | 6,245 | 6,302 | 7,112 | 5,866 | 6,662 | 7,355 | 7,166 | 6,894 | 6,522 | |
| Cymru - diwygiedig | 15,013 | 13,233 | 13,838 | 15,229 | 12,540 | 15,794 | 15,859 | 15,791 | 14,450 | 13,906 | 13,731 |

| | Gwariant (£ miliwn) | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2009 | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 |
| Cymru - gwreiddiol | £332 | £333 | £328 | £346 | £352 | £368 | £410 | £444 | £369 | £405 | |
| Cymru - diwygiedig | £337 | £336 | £335 | £352 | £353 | £373 | £409 | £507 | £397 | £433 | £515 |

**Tabl 7.3 Nifer yr Ymweliadau Rhyngwladol (000oedd), y Nosweithiau (miliynau) a Gwariant Cysylltiedig (£ miliynau) - Cyfartaleddau Blynyddol dros Dair Blynedd**
*Ffynhonnell: Arolwg Teithwyr Rhyngwladol*

| Ymweliadau (000oedd) | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2006-2008** | **2007-2009** | **2008-2010** | **2009-2011** | **2010-2012** | **2011-2013** | **2012-2014** | **2013-2015** | **2014-2016** | **2015-2017** | **2016-2018** | **2017-2019** |
| Y DU | 32,460 | 31,913 | 31,120 | 31,119 | 31,502 | 32,558 | 33,708 | 35,232 | 37,086 | 39,000 | 40,164 | 40,740 |
| Cymru | 1,063 | 1,013 | 977 | 914 | 868 | 867 | 887 | 923 | 991 | 1,050 | 1,060 | 1,041 |
| Gogledd Cymru | 298 | 304 | 289 | 270 | 247 | 233 | 229 | 250 | 270 | 298 | 303 | 299 |
| Canolbarth Cymru | 89 | 82 | 87 | 78 | 80 | 77 | 80 | 85 | 98 | 107 | 107 | 99 |
| De-ddwyrain Cymru | 511 | 471 | 457 | 433 | 430 | 439 | 446 | 470 | 499 | 526 | 525 | 525 |
| De-orllewin Cymru | 214 | 202 | 201 | 190 | 173 | 173 | 190 | 190 | 203 | 203 | 198 | 187 |

| Nosweithiau (miliynau) | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2006-2008** | **2007-2009** | **2008-2010** | **2009-2011** | **2010-2012** | **2011-2013** | **2012-2014** | **2013-2015** | **2014-2016** | **2015-2017** | **2016-2018** | **2017-2019** |
| Y DU | 256.904 | 246.105 | 241.013 | 241.637 | 242.072 | 248.761 | 258.797 | 272.662 | 287.121 | 298.760 | 301.229 | 297.876 |
| Cymru | 7.737 | 6.889 | 6.833 | 6.373 | 6.696 | 6.608 | 6.713 | 6.671 | 7.173 | 7.437 | 7.281 | 7.198 |
| Gogledd Cymru | 1.792 | 1.576 | 1.495 | 1.545 | 1.712 | 1.700 | 1.647 | 1.555 | 1.686 | 1.633 | 1.668 | 1.567 |
| Canolbarth Cymru | 0.637 | 0.630 | 0.640 | 0.509 | 0.513 | 0.498 | 0.565 | 0.619 | 0.740 | 1.045 | 1.001 | 0.856 |
| De-ddwyrain Cymru | 3.631 | 3.069 | 3.085 | 2.869 | 3.228 | 3.119 | 3.134 | 3.058 | 3.228 | 3.229 | 3.102 | 3.249 |
| De-orllewin Cymru | 1.570 | 1.552 | 1.544 | 1.379 | 1.186 | 1.242 | 1.318 | 1.369 | 1.447 | 1.421 | 1.392 | 1.352 |

| Gwariant (£ miliwn) | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2006-2008** | **2007-2009** | **2008-2010** | **2009-2011** | **2010-2012** | **2011-2013** | **2012-2014** | **2013-2015** | **2014-2016** | **2015-2017** | **2016-2018** | **2017-2019** |
| Y DU | £15,981 | £16,517 | £17,129 | £18,009 | £18,722 | £20,185 | £21,665 | £23,019 | £24,091 | £25,749 | £26,631 | £27,637 |
| Cymru | £338 | £330 | £329 | £336 | £341 | £347 | £359 | £378 | £430 | £438 | £446 | £448 |
| Gogledd Cymru | £77 | £82 | £79 | £80 | £81 | £77 | £76 | £80 | £88 | £92 | £90 | £89 |
| Canolbarth Cymru | £27 | £24 | £28 | £27 | £33 | £34 | £36 | £39 | £58 | £62 | £54 | £31 |
| De-ddwyrain Cymru | £166 | £156 | £157 | £165 | £169 | £170 | £170 | £178 | £186 | £192 | £196 | £224 |
| De-orllewin Cymru | £62 | £62 | £62 | £61 | £56 | £62 | £75 | £76 | £91 | £84 | £95 | £92 |

## Ymwelwyr Undydd Twristiaeth

Sylwch fod y dull o gynnal yr arolwg wedi cael ei ddiwygio droeon ers 2016, a bod hynny wedi effeithio ar y gallu i gymharu ffigurau 2011-2015 â'r ffigurau o 2016 ymlaen. I unioni hyn, mae'r ffigurau cyn 2016 wedi'u hailbwysoli ar sail +15 y cant fel bo modd eu cymharu. Mae'n bosibl felly nad yw rhai o'r ffigurau isod ar gyfer ymweliadau undydd Twristiaeth yn cyfateb â'r rhai a ddarparwyd yn flaenorol.

**Tabl 7.4 Nifer yr ymweliadau undydd Twristiaeth (miliwn) a Gwariant Cysylltiedig (£ miliwn) - Cyfartaleddau Blynyddol dros Dair Blynedd**

*Ffynhonnell: Arolwg Ymweliadau Undydd Prydain*

| | Ymweliadau (miliynau) | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2011-2013 | 2012-2014 | 2013-2015 | 2014-2016 | 2015-2017 | 2016-2018 | 2017-2019 |
| Prydain | 1,857 | 1,872 | 1,801 | 1,803 | 1,794 | 1,777 | 1,716 |
| Cymru | 112 | 108 | 97 | 97 | 96 | 99 | 94 |
| Gogledd Cymru | 27 | 27 | 24 | 27 | 24 | 25 | 23 |
| Canolbarth Cymru | 13 | 15 | 15 | 13 | 11 | 11 | 12 |
| De-ddwyrain Cymru | 47 | 44 | 39 | 37 | 38 | 39 | 38 |
| De-orllewin Cymru | 24 | 23 | 20 | 21 | 22 | 24 | 23 |
| | **Gwariant (£ miliwn)** | | | | | | |
| | **2011-2013** | **2012-2014** | **2013-2015** | **2014-2016** | **2015-2017** | **2016-2018** | **2017-2019** |
| Prydain | £ 62,498 | £ 63,161 | £ 61,938 | £ 62,560 | £ 62,765 | £ 63,378 | £ 64,402 |
| Cymru | £ 3,770 | £ 3,669 | £ 3,240 | £ 3,432 | £ 3,850 | £ 4,146 | £ 3,929 |
| Gogledd Cymru | £ 831 | £ 1,011 | £ 817 | £ 1,001 | £ 830 | £ 920 | £ 703 |
| Canolbarth Cymru | £ 427 | £ 427 | £ 449 | £ 357 | £ 374 | £ 388 | £ 628 |
| De-ddwyrain Cymru | £ 1,789 | £ 1,685 | £ 1,442 | £ 1,534 | £ 1,612 | £ 1,735 | £ 1,550 |
| De-orllewin Cymru | £ 759 | £ 771 | £ 733 | £ 695 | £ 750 | £ 813 | £ 762 |

## Cyfraddau Deiliadaeth Llety

**Tabl 7.5 Cyfraddau Defnydd Llety yng Nghymru ac ym mhob Rhanbarth yng Nghymru - Cyfartaleddau Blynyddol dros Dair Blynedd**
*Ffynhonnell: Arolwg Deiliadaeth Croeso Cymru*

| Gwesty - Cyfraddau Ystafell | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2008-2010 | 2009-2011 | 2010-2012 | 2011-2013 | 2012-2014 | 2013-2015 | 2014-2016 | 2015-2017 | 2016-2018 | 2017-2019 |
| Cymru | 58 | 59 | 59 | 60 | 62 | 65 | 66 | 67 | 66 | 66 |
| Gogledd Cymru | 60 | 61 | 61 | 62 | 64 | 65 | 67 | 67 | 65 | 64 |
| Canolbarth Cymru | 49 | 51 | 52 | 53 | 53 | 52 | 52 | 52 | 53 | 54 |
| De-ddwyrain Cymru | 63 | 62 | 61 | 62 | 65 | 69 | 71 | 72 | 73 | 72 |
| De-orllewin Cymru | 54 | 53 | 52 | 50 | 55 | 59 | 63 | 63 | 63 | 65 |
| **Tai Llety / Gwely a Brecwast - Cyfraddau Ystafell** | | | | | | | | | | |
| | 2008-2010 | 2009-2011 | 2010-2012 | 2011-2013 | 2012-2014 | 2013-2015 | 2014-2016 | 2015-2017 | 2016-2018 | 2017-2019 |
| Cymru | 37 | 36 | 35 | 34 | 34 | 35 | 36 | 38 | 37 | 37 |
| Gogledd Cymru | 38 | 38 | 35 | 34 | 34 | 35 | 37 | 38 | 38 | 35 |
| Canolbarth Cymru | 31 | 33 | 33 | 33 | 30 | 30 | 29 | 29 | 29 | 31 |
| De-ddwyrain Cymru | 40 | 34 | 31 | 27 | 29 | 31 | 34 | 32 | 24 | 20 |
| De-orllewin Cymru | 40 | 38 | 39 | 40 | 41 | 42 | 43 | 46 | 46 | 46 |
| **Hunanddarpar - Cyfraddau Uned** | | | | | | | | | | |
| | 2008-2010 | 2009-2011 | 2010-2012 | 2011-2013 | 2012-2014 | 2013-2015 | 2014-2016 | 2015-2017 | 2016-2018 | 2017-2019 |
| Cymru | 48 | 50 | 51 | 52 | 51 | 50 | 51 | 53 | 55 | 57 |
| Gogledd Cymru | 53 | 57 | 56 | 56 | 57 | 57 | 57 | 57 | 59 | 62 |
| Canolbarth Cymru | 44 | 45 | 47 | 49 | 45 | 45 | 47 | 51 | 51 | 51 |
| De-ddwyrain Cymru | - | - | - | - | - | - | 48 | 49 | 48 | 49 |
| De-orllewin Cymru | - | - | - | - | - | - | 48 | 52 | 54 | 56 |

**Nid yw ffigurau De-ddwyrain Cymru na'r De-orllewin Cymru ar gael tan 2014*

| Carafanau Statig a Chartrefi Gwyliau - Cyfraddau Uned | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2008-2010 | 2009-2011 | 2010-2012 | 2011-2013 | 2012-2014 | 2013-2015 | 2014-2016 | 2015-2017 | 2016-2018 | 2017-2019 |
| Cymru | 81 | 81 | 80 | 83 | 77 | 74 | 76 | 84 | 88 | 88 |
| Gogledd Cymru | - | - | - | - | 69 | 57 | 48 | 42 | 44 | 45 |
| Canolbarth Cymru | - | - | - | - | 57 | 58 | 47 | 57 | 57 | 70 |
| De-ddwyrain Cymru* | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| De-orllewin Cymru | - | - | - | - | 52 | 56 | 71 | 75 | 79 | 79 |
| Carafanau Teithiol a Gwersylla - Cyfraddau Llain | | | | | | | | | | |
| | 2008-2010 | 2009-2011 | 2010-2012 | 2011-2013 | 2012-2014 | 2013-2015 | 2014-2016 | 2015-2017 | 2016-2018 | 2017-2019 |
| Cymru | 44 | 45 | 43 | 37 | 32 | 33 | 36 | 39 | 42 | 43 |
| Gogledd Cymru | - | - | - | - | 33 | 35 | 39 | 41 | 42 | 41 |
| Canolbarth Cymru | - | - | - | - | 35 | 35 | 34 | 35 | 38 | 42 |
| De-ddwyrain Cymru* | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| De-orllewin Cymru | - | - | - | - | 32 | 33 | 36 | 38 | 43 | 42 |
| Hostel - Cyfraddau Gwely | | | | | | | | | | |
| | 2008-2010 | 2009-2011 | 2010-2012 | 2011-2013 | 2012-2014 | 2013-2015 | 2014-2016 | 2015-2017 | 2016-2018 | 2017-2019 |
| Cymru | 38 | 41 | 41 | 42 | 44 | 46 | 48 | 51 | 52 | 53 |
| Gogledd Cymru | 38 | 43 | 46 | 49 | 50 | 52 | 54 | 54 | 53 | 53 |
| Canolbarth Cymru | 39 | 38 | 39 | 40 | 42 | 46 | 50 | 53 | 55 | 58 |
| De-ddwyrain Cymru | 45 | 43 | 41 | 41 | 41 | 41 | 44 | 45 | 48 | 47 |
| De-orllewin Cymru | 37 | 39 | 39 | 39 | 39 | 41 | 44 | 49 | 51 | 53 |

**Ni ddangosir ffigurau De-ddwyrain Cymru gan fod maint y sampl yn fach.*

**Math o lety a ddefnyddiwyd ar daith dros nos gan ymwelwyr domestig o Brydain**

| **Tabl 7.6 Categorïau Llety - Teithiau dros nos domestig gan ymwelwyr o Brydain**<br>*Ffynhonnell: Arolwg Twristiaeth Prydain* |
| --- |
| |
| **Gwesty / Motel** |
| Gwesty |
| Motel |
| **Tŷ Llety/Ffermdy/Gwely a Brecwast** |
| Gwely a Brecwast |
| Gwesty bach |
| Ffermdy |
| **Llety Hunanddarpar** |
| Hunanddarpar mewn fflat\rhandy rhent |
| Hunanddarpar mewn tŷ\siale\fila\bynglo\bwthyn |
| Gwersyll\pentref gwyliau - hunanddarpar |
| **Cartref ffrind/Cartref perthynas/Ail gartref/Cyfran gyfnodol** |
| Cartref ffrind |
| Cartref perthynas |
| Yn berchen ar ail gartref\cyfran gyfnodol |
| **Carafanio a Gwersylla** |
| Carafanio a Gwersylla |